# Canllawiau ar ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer recriwtio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i weithgareddau

Mae recriwtio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn gofyn am ystyried profiadau personol pobl sy'n byw gyda phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu'n gofalu amdanynt.

Isod mae rhestrau gwirio a phenawdau awgrymedig i roi canllawiau ar gyfer creu strategaeth recriwtio y gallai sefydliadau fod eisiau ei dilyn. Mae hyn yn adlewyrchu arfer gorau o bedwar ban byd o ran sut mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu recriwtio i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

## 2.1 Ble mae'r sefydliad nawr?

2.1.1 Ystyriwch y rhestr wirio ganlynol o arfer gorau wrth recriwtio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Pa mor agos ydych chi at hyn nawr?

### 2.1.2 Cyd-destun/diwylliant sefydliadol

a) Mae gan eich sefydliad ymrwymiad cryf i gyd-gynhyrchu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ym mhob agwedd ar recriwtio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i rolau ymgysylltu h.y. datblygu disgrifiadau swydd, llunio rhestr fer, cyfweliadau.

b) Mae gennych gyllideb ar gyfer recriwtio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

c) Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n ymwneud â recriwtio yn cael hyfforddiant, os oes ei angen arnynt, i wella ansawdd y prosesau dethol.

ch) Rydych chi'n creu cyfleoedd yn weithredol o fewn eich cymunedau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i feithrin gallu ar gyfer ymgysylltu

d) Mae gennych chi berson cyswllt o fewn eich sefydliad i gymryd ymholiadau gan ymgeiswyr posibl neu ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd â diddordeb ac sydd am gymryd rhan yn unrhyw un o'ch gweithgareddau ymgysylltu.

### 2.1.3 Mae nodweddion y defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr sy'n ymwneud ag ymgysylltu o fewn eich sefydliad wedi'u dogfennu

a) Mae gennych ystod eang o leisiau a grwpiau gan gynnwys lleiafrifoedd a'r rhai â nodweddion gwarchodedig sy'n ymwneud â'ch sefydliad.

b) Mae'r defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr sy'n ymwneud â'ch sefydliad yn

dangos cynrychiolaeth ddaearyddol dda

c) Mae'r defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr sy'n ymwneud â'ch sefydliad yn dangos ymrwymiad

### 2.1.4 Ansawdd y broses

a) Mae rôl defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cael eu recriwtio i weithgareddau ymgysylltu eich sefydliad wedi'i disgrifio'n glir ac wedi'i chyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

b) O fewn eich sefydliad, rydych chi'n gwybod y sgiliau a'r wybodaeth sydd gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac rydych chi'n ymwybodol o unrhyw fylchau yn eu sgiliau a'u gwybodaeth y mae angen i eraill sy'n dod i'w rolau priodol eu llenwi.

c) Mae gan eich sefydliad strategaeth ymgysylltu i sicrhau bod yr ystod ehangaf bosibl o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ymgysylltu. Mae'r strategaeth yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau cyfathrebu, ac yn dosbarthu gwybodaeth ymhell ac agos

ch) Mae'r wybodaeth a ddarparwch am gyfleoedd cymryd rhan yn hawdd ei darllen, yn glir ac yn berthnasol

d) Mae gennych system sgorio ar gyfer gwerthuso ceisiadau/asesiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cael ei chyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

dd) Rydych chi'n rhoi adborth ar gais, i ymgeiswyr aflwyddiannus ynghylch pam na chawsant eu dewis y tro hwn, a pha gamau y gallant eu cymryd i ddod yn fwy addas wrth ailymgeisio.

## 2.2 Ble mae'r sefydliad eisiau bod?

a) Mae eich blaenoriaethau i wella recriwtio defnyddwyr gwasanaetha a gofalwyr ar gyfer ymgysylltu o fewn eich sefydliad yn cael eu cyd-gynhyrchu a'u cytuno gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

b) Rydych chi wedi casglu gwybodaeth am nifer y rolau cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd eu hangen arnoch chi, a nifer y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr y mae eich sefydliad yn eu gwasanaethu.

c) Eich nodau ar gyfer y flwyddyn/3 blynedd/5 mlynedd nesaf (yn dibynnu ar oes eich strategaeth) yw:

- Clir a dealladwy
- Realistig
- Wedi'u cyd-gynhyrchu a'u cytuno â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Cyflawnadwy o fewn y gyllideb, o fewn yr amser penodedig
- Mae cynnydd tuag at eich nodau yn cael ei fesur
-

## 2.3 Sut fydd y sefydliad yn cyrraedd yno?

a) Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn teimlo bod ganddyn nhw gydberchnogaeth dros y broses

b) Mae tasgau recriwtio yn cael eu nodi mewn ffordd gydgynhyrchiol gyda defnyddwyr gwasanaetha a gofalwyr

c) Lle bo modd, dirprwyir tasgau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

ch) Lle mae dirprwyo'n digwydd, caiff defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu gwaith (os ydynt am gael hynny)

d) Darperir cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

dd) Mae arbenigedd priodol ar gael i arwain prosesau recriwtio i fod yn gyfreithlon ac yn deg

e) Neilltuwyd digon o amser i ddatblygu'r cynllun gweithredu

f) a) Mae'r cynllun wedi'i rannu'n gamau neu gerrig milltir cyraeddadwy gydag amserlenni realistig

## 2.4 Cyflawni strategaeth recriwtio

a) Mae cyflawni'r strategaeth wedi'i ddirprwyo i unigolion enwebedig sy'n atebol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr y sefydliad trwy gynllun gweithredu.

b) Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys cerrig milltir ac amserlenni clir ar gyfer eu cwblhau

c) Mae cyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth yn agored i graffu a chymeradwyaeth gan randdeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

ch) Caiff cerrig milltir cyflawni eu monitro gan benderfynwyr mewn cyd-gynhyrchu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ar amser ac ar lefel dderbyniol o safon.

## 2.5 Adolygu a diweddaru strategaeth recriwtio

a) Caiff prosesau recriwtio eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd i lywio strategaethau'r dyfodol yn well

b) Mae prosesau gwerthuso yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr